

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2024 at
2.00 pm**

CYNGHORWYR Andrew Balckmore (Cadeirydd)
YN Cyngorydd Sirol Tony Easson, (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

Aelodau Lleyg: C. Prosser, M. Veale, R. Guest,

Cyngorydd Sirol: Sara Burch, John Crook, David Jones,
Phil Murphy, Peter Strong and Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Annette Evans	Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jan Furtek	Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro
Jane Rodgers	Pennaeth Gwasanaethau Plant
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Rachel Freitag	Swyddog Archwilio Cymru
Hannah Carter	Dadansoddwr Perfformiad
Daniel Francis	Accountant
Matthew Gatehouse	Pennaeth Polisi a Llywodraethiant

YMDDIHEURIADAU:

Cyngorydd Sirol Malcolm Lane

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Nodi'r Rhestr o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

Nodwyd y Rhestr Weithredu o'r cyfarfod blaenorol.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0Tql6a4?si=mmyXnp7iDgPuFI7T&t=46>

1. Teithio Llesol: Pwyllgor craffu perthnasol i adolygu llwyddiant cynlluniau Teithio Llesol / disgwyliadau a dyheadau trigolion lleol: AR GAU

4. 2024/25 Adroddiad y Trysorlys

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2024 at 2.00 pm

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 Adroddiad y Trysorlys 2024/25. Gwahoddwyd aelodau i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0TqI6a4?si=hcZsiMo4lInMS-pe&t=74>

Adolygodd y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ganlyniadau gweithgareddau rheoli'r trysorlys a'r perfformiad a gyflawnwyd yn chwarter 2 fel rhan o'u cyfrifoldeb dirprwyedig i graffu ar bolisi, strategaeth a gweithgaredd y trysorlys ar ran y Cyngor.

CAM GWEITHREDU: Gofynnwyd i Bennaeth Cyllid ddosbarthu manylion y 3 siarter y gall sefydliadau eu cofrestru'n wirfoddol er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn bodloni'r lefel ofynnol o gyfrifoldeb Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Nodwyd yr adroddiad.

5. 2023/24 Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Fynwy (Terfynol)

Cafodd eitemau 6 a 7 eu hystyried gyda'i gilydd. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 Ddatganiad Cyfrifon 2023/24 (Terfynol). Wrth wneud hynny, cydnabuwyd gwaith y Tîm Cyllid, a hefyd y cydweithrediad rhwng y Tîm ac Archwilio Cymru. Ar ôl cyflwyno'r adroddiadau, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0TqI6a4?si=IZU4hW3lnQSk9bEF&t=878>

Cytunwyd ar argymhellion yr adroddiad, fel a ganlyn:

- 1.1. Nododd y pwyllgor fod y cyfrifon wedi'u diwygio ers i'r fersiwn ddrafft gael ei chyhoeddi i adlewyrchu canlyniadau'r broses archwilio allanol, fel y manylir yn Adroddiad Archwilio Cyfrifon ISA 260 Archwilio Cymru.
- 1.2. Cymeradwyodd y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Sir Fynwy terfynol a archwiliwyd ar gyfer 2023/24.

6. Adroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon - Archwilio Cymru

Ystyriwyd yr eitem hon ar yr un pryd â'r eitem flaenorol.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0TqI6a4?si=IZU4hW3lnQSk9bEF&t=878>

7. Effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg Strategol a chrynodeb o'r trefniadau ehangach

Cyflwynodd y Rheolwr Mewnwelediad Perfformiad a Data a Dadansoddwr Perfformiad adroddiad ar Effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg Strategol a chrynodeb o drefniadau ehangach. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0TqI6a4?si=aiWkOW7dNZzFvRCm&t=1632>

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, defnyddiodd yr Aelodau'r asesiad i geisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2024 at 2.00 pm

8. Adroddiad Cwynion Blynyddol Awdurdod Cyfan

Cyflwynodd y Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid a'r Prif Swyddog, Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau Adroddiad Cwynion Blynyddol yr Awdurdod Cyfan. Yn dilyn yr adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

https://www.youtube.com/live/Fh0p0Tql6a4?si=7q41_FW4Svr622Ng&t=2639

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, cytunwyd bod y pwyllgor wedi defnyddio'r adroddiad, sy'n cwmpasu'r cyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024, i geisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd prosesau'r awdurdod ar gyfer delio â chwynion a chanmoliaeth ac yn gwneud argymhellion lle mae'n nodi unrhyw ddiffygion.

9. Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0Tql6a4?si=0-s2lxJqYbo498nf&t=3835>

Fel yn argymhellion yr adroddiad, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

1. Yn nodi cynnwys llythyr blynyddol Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru (Atodiad 1) a chytunwyd i hysbysu'r Ombwdsmon o'u hystyriaethau ac unrhyw gamau gweithredu arfaethedig. Mae'r Ombwdsmon yn ymwybodol y byddai oedi wrth ymateb iddynt oherwydd amserlennu cyfarfodydd.
2. Cytunodd fod yr awdurdod yn parhau i ymgysylltu â gwaith safonau cwynion yr Ombwdsmon, i gael mynediad at hyfforddiant i staff a darparu data cwynion i'r Ombwdsmon. Rydym hefyd wedi gweithredu polisi cwynion enghreifftiol yr Ombwdsmon yn llawn.

10. Eithriadau Rheolau Gweithdrefn Contract - diweddariad 6 mis hyd at 30ain Medi 2024

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro'r adroddiad ar Eithriadau Rheolau Gweithdrefn Contract – diweddariad misol 6 i 30^{ain} Medi 2024. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0Tql6a4?si=IRTdl87ppq8FEEOV&t=4245/>

Fel y cynhwysir yn argymhellion yr adroddiad:

1. Derbyniodd a chydabu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r cyfiawnhad dros yr eithriadau a ddarparwyd gan swyddogion gweithredol.
2. Os nad yw'r cyfiawnhad yn cael eu derbyn, yna dylid ystyried galw'r swyddog gweithredol priodol a'u Pennaeth Gwasanaeth priodol a'u dwyn i gyfrif ymhellach am y

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2024 at 2.00 pm

rhesymau pam na allent gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor ar adeg y caffael.

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad wedi'i ddiweddarau ymhén 6 mis.

11. Adroddiad Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol (Ch2)

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (Ch2). Mynychodd y Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd y cyfarfod hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gyda'r adroddiad archwilio ar gyfer Canolfan Adnoddau/Preswyl Parc Maerdy a Severn View. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0TqI6a4?si=ol4Q54bp8GXARXp9&t=4926>

Fel yn argymhellion yr adroddiad:

1. Ystyriodd y Pwyllgor a nododd y farn archwilio a gyhoeddwyd.
2. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed gan yr Adran tuag at gyflawni Cynllun Archwilio Gweithredol 2024/25 a dangosyddion perfformiad yr Adran yng nghyfnod 6 mis y flwyddyn ariannol, sydd ar hyn o bryd yn uwch na'r targed a broffiliwyd.

12. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio

Nodwyd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0TqI6a4?si=PSLrd5TvSmHyOhap&t=6532>

13. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17eg Hydref 2024

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

<https://www.youtube.com/live/Fh0p0TqI6a4?si=HO1A2FA0ixOCGdoR&t=6526>

14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:

16^{eg} Ionawr 2025 am 2.00pm

Gorffennodd y cyfarfod am 3.50 pm